

## PRIFFYRDD, CYMRU

### 2012 Rhif 43

#### DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

#### GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (LÔN YN MERTHYR STREET, Y BARRI, BRO MORGANNWG) 2012

Gwnaed 20 Medi 2012

Yn dod i rym 27 Medi 2012

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1).

#### Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. (1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cau Priffyrdd (Lôn yn Merthyr Street, Y Barri, Bro Morgannwg) 2012.

(2) Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr "y Cyngor" (*"the Council"*) yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg;

ystyr "y datblygwr" (*"the developer"*) yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio wedi ei roi iddo;

ystyr "y plan a adnewyd" (*"the deposited plan"*) yw'r plan o'r enw "Gorchymyn Cau Priffyrdd (Lôn yn Merthyr Street, Y Barri, Bro Morgannwg) 201-" sydd gyda'r Gorchymyn hwn.

ystyr "Deddf 1990" (*"the 1990 Act"*) yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; ac

(3) ystyr "y plan a adnewyd" (*"the deposited plan"*) yw'r plan sy'n dwyn yr enw "Gorchymyn Cau Priffyrdd (Lôn yn Merthyr Street, Y Barri, Bro Morgannwg) 2012" sy'n mynd gyda'r Gorchymyn hwn;

#### Cau Priffordd

2. Yn amodol ar erthyglau 3, 4, 5 a 6, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 ac a ddangosir gyda llinellau rhesog sebra ar y plan a adnewyd. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni fod angen cau priffordd er mwyn gallu datblygu yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan y

Cyngor ar 24 Mawrth 2011 o dan gyfeirnod 2011/01355/FUL, ac a ddisgrifir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

### **Priffordd(Priffyrdd) newydd / wedi ei(eu) gwella**

3. Crëir, er boddhad rhesymol y Cyngor, y priffyrdd newydd a ddisgrifir yn Atodlen 2 ac a ddangosir gan ddotwaith ar y plan a adneuwyd, a'r priffordd gwell a ddisgrifir yn Atodlen 3, ac a ddangosir â chroes linellau ar y plan a adneuwyd, a byddant, at ddibenion Deddf Priffyrdd 1980(2), yn briffyrdd sydd i'w cynnal ar draul y pŵrs cyhoeddus, a'r Cyngor fydd yr awdurdod priffyrdd ar eu cyfer.

### **Y Darpariaethau Angenrheidiol neu Hwylus cyn Cau'r Priffyrdd ac er mwyn Darparu neu Wella'r Priffyrdd**

4. Ni chaniateir cau'r rhan o briffordd yn Atodlen 1:-

- (a) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu'r priffyrdd newydd a gwell a ddisgrifir yn Atodlenni 2 a 3 er boddhad rhesymol y Cyngor;
- (b) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy'n dangos y modd y caeir y rhan o briffordd;
- (c) hyd nes y bydd y datblygiad y cyfeirir ato yn Atodlen 4 wedi dechrau, a bod y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig o'r rheidrwydd i gau'r briffordd er mwyn caniatáu i'r datblygiad fynd rhagddo; ac
- (ch) hyd nes y bydd y Cyngor wedi cadarnhau'n ysgrifenedig fod paragraffau (a), (b), ac (c) wedi eu bodloni.

### **Ymgwymerwyr a Darparwyr Statudol**

5. Pan fo gan ymgwymerwyr statudol neu ddarparwyr system gyfathrebu gyhoeddus unrhyw gyfarpar o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws yn union cyn i'r ardal o briffordd (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990), bydd gan yr ymgwymerwyr neu'r darparwyr yr un hawliau o ran y cyfarpar ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

### **Cyfnod Parhad y Gorchymyn hwn**

6. Os na fydd y datblygiad y cyfeirir ato yn Atodlen 4 wedi ei ddechrau o fewn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan 3 o Ddeddf 1990 fel cyfnod parhad y caniatâd cynllunio, neu os caiff y caniatâd ei ddirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn effeithiol pan ddaw'r caniatâd

cynllunio i ben.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig                    20 Medi 2012

*R Morgan*

**RICHARD MORGAN**

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau  
Llywodraeth Cymru

- (1) 1990 p.8. Yn rhinwedd O.S.1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 a pharagraff 30(1) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.  
(2) 1980 p.66.

**YR ATODLENNI**

**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

**ATODLEN 1**

**Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn**

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd ddienw, sef lôn sy'n ymestyn tua'r gogledd dros dir rhwng Merthyr Street, sydd wedi ei lleoli rhwng rhifau 66 a 86 Merthyr Street a'r lôn sydd y tu cefn i Merthyr Street, yn y Barri ym Mro Morgannwg a'r rhan honno yn 21 o fetrau yn ei man hiraf, yn 4 metr yn ei man lletaf a'i harwynebedd cyfan yn 53 o fetrau sgwâr.

**ATODLEN 2**

**Disgrifiad o'r priffyrdd newydd sydd i'w darparu**

Darn afreolaidd ei siâp o dir i'r gorllewin o'r lôn sy'n ymestyn tua'r gogledd o Merthyr Street, rhwng rhifau 66 a 86 Merthyr Street yn y Barri ym Mro Morgannwg, a'r darn hwnnw yn 23 o fetrau yn ei fan hiraf, yn 17 o fetrau yn ei fan lletaf a'i arwynebedd cyfan yn 169 o fetrau sgwâr.

Darn o dir ar siâp triongl i'r dwyrain o'r lôn sy'n ymestyn tua'r gogledd o Merthyr Street, rhwng rhifau 66 a 86 Merthyr Street yn y Barri ym Mro

Morgannwg, a'r darn hwnnw yn 4 metr yn ei fan hiraf, yn 2 fetr yn ei fan lletaf a'i arwynebedd cyfan yn 4 metr sgwâr.

### **ATODLEN 3**

#### **Disgrifiad o'r briffordd sydd i'w gwella**

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd ddiennw, sef lôn sy'n ymestyn tua'r gogledd o Merthyr Street, rhwng rhifau 66 a 86 Merthyr Street, yn y Barri ym Mro Morgannwg a'r rhan honno yn 12 o fetrau yn ei man hiraf, yn 3.5 metr yn ei man lletaf a'i harwynebedd cyfan yn 25 o fetrau sgwâr

### **ATODLEN 4**

#### **Y Datblygiad**

Datblygiad preswyl sef fflat 'dau-berson' i'r anabl a chanddo un ystafell wely i 'ddau berson' ac un ar ddeg o fflatiau â dwy ystafell wely i 'dri pherson' ac ail-leoli'r ffordd fynediad bresennol ar dir rhwng rhifau 66 a 86 Merthyr Street, Y Barri, ym Mro Morgannwg.

## **DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

### **GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (LÔN YN MERTHYR STREET, Y BARRI, BRO MORGANNWG) 2012**

**HYSBYSIR DRWY HYN** fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i awdurdodi cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn i ddarparu ar gyfer y rhannau newydd o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 ac i wella'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 3.

Awdurdodir cau'r briffordd i alluogi'r datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 4 i gael ei wneud. Bydd y Gorchymyn Cau Priffyrdd (Lôn yn Merthyr Street, Y Barri, Bro Morgannwg) 2012 ("y Gorchymyn") yn peidio â bod yn effeithiol os daw'r caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir archwilio copïau o'r Gorchymyn a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau agor arferol Adran Briffyrdd Cyngor Bro Morgannwg, Swyddfa'r Dociau, Dociau'r Barri, Y Barri CF63 4RT neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod.

Os bydd unrhyw un yn dymuno amau dilysrwydd y Gorchymyn neu'r darpariaethau sydd ynddo, gallant wneud hynny ar y seiliau a ganlyn:

- a. nad yw o fewn pwerau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; neu
- b. y rhagfarnwyd yn sylweddol yn erbyn ei fuddiannau gan fethiant i gydymffurfio ag unrhyw un neu rai o ofynion y Ddeddf,

O fewn 6 wythnos i 27 Medi 2012, caiff person wneud cais i'r Uchel Lys atal dros dro neu ddiddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth sydd yn y Gorchymyn os yw sail a. neu b. wedi eu bodloni.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad yn [www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk) (detholer: 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Offerynnau Anstatudol', 'Trafnidiaeth Cymru', 'Gorchmynion Cau TCPA', '2012').

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

*M D Burnell*

**M D BURNELL**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLENNI

(Bras amcan yw pob mesuriad)

### ATODLEN 1

#### **Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn**

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd ddiennw, sef lôn sy'n ymestyn tua'r gogledd dros dir rhwng Merthyr Street, sydd wedi ei lleoli rhwng rhifau 66 a 86 Merthyr Street a'r lôn sydd y tu cefn i Merthyr Street, yn y Barri ym Mro Morgannwg a'r rhan honno yn 21 o fetrau yn ei man hiraf, yn 4 metr yn ei man lletaf a'i harwynebedd cyfan yn 53 o fetrau sgwâr.

### ATODLEN 2

#### **Disgrifiad o'r priffyrdd newydd sydd i'w darparu**

Darn afreolaidd ei siâp o dir i'r gorllewin o'r lôn sy'n ymestyn tua'r gogledd o Merthyr Street, rhwng rhifau

66 a 86 Merthyr Street yn y Barri ym Mro Morgannwg, a'r darn hwnnw yn 23 o fetrau yn ei fan hiraf, yn 17 o fetrau yn ei fan lletaf a'i arwynebedd cyfan yn 169 o fetrau sgwâr.

Darn o dir ar siâp triongl i'r dwyrain o'r lôn sy'n ymestyn tua'r gogledd o Merthyr Street, rhwng rhifau 66 a 86 Merthyr Street yn y Barri ym Mro Morgannwg, a'r darn hwnnw yn 4 metr yn ei fan hiraf, yn 2 fetr yn ei fan lletaf a'i arwynebedd cyfan yn 4 metr sgwâr.

### **ATODLEN 3**

#### **Disgrifiad o'r briffordd sydd i'w gwella**

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd ddiennw, sef lôn sy'n ymestyn tua'r gogledd o Merthyr Street, rhwng rhifau 66 a 86 Merthyr Street, yn y Barri ym Mro Morgannwg a'r rhan honno yn 12 o fetrau yn ei man hiraf, yn 3.5 metr yn ei man lletaf a'i harwynebedd cyfan yn 25 o fetrau sgwâr

### **ATODLEN 4**

#### **Y Datblygiad**

Datblygiad preswyl sef fflat 'dau-berson' i'r anabl a chanddo un ystafell wely i 'ddau berson' ac un ar ddeg o fflatiau â dwy ystafell wely i 'dri pherson' ac ail-leoli'r ffordd fynediad bresennol ar dir rhwng rhifau 66 a 86 Merthyr Street, Y Barri, ym Mro Morgannwg, yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd gan y Cyngor o dan Ran III o Ddeddf 1990, ar 24 Mawrth 2011 o dan gyfeirnod 2010/01355/FUL.